Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

**Heol Glan-Y-Nant**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**CF14 1AP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 469 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 344 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 63 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 5.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 2.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/01/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a Chymreig yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch ddysgu barchus a threfnus. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder nodedig ac mae eu hymddygiad yn rhagorol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur hapus a chyfeillgar y disgyblion. Maent yn feddylgar at eraill, yn sgwrsio'n gwbl naturiol â'i gilydd ac oedolion yn Gymraeg ac yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u treftadaeth leol. Maent yn dangos balchder yn llwyddiannau cerddorol yr ysgol, er enghraifft wrth lwyddo mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm creadigol, eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n cymell disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae tueddiad i leiafrif o staff or-arwain y gweithgareddau sydd yn ei dro yn cyfyngu ar gyfleoedd i leiafrif o ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr mwyfwy annibynnol.

Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion. Mae'r pennaeth brwdfrydig wedi creu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n sicrhau ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol i wella'r ddarpariaeth. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn canolbwyntio'n ddigon bwriadus bob tro ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion.

## Argymhellion

A1 Rhannu'r arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n fwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n debyg i'r rhai a ddisgwylir, neu'n uwch, am eu hoedran a'u cam datblygu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu medrau gwrando cadarn ac mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus a chwrtais. Yn y dosbarth derbyn, maent yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd, er enghraifft wrth ystyried pa ansoddeiriau i'w defnyddio wrth drafod teimladau môr ladron. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn gwbl naturiol ac yn defnyddio geirfa bwrpasol ac iaith gyfoethog wrth drafod eu gwaith, er enghraifft wrth sylwebu ar gemau chwaraeon. Maent yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn trafodaethau dosbarth ac yn ystyriol iawn o safbwyntiau eu cyfoedion.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt aeddfedu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau gwrando ar storïau a'u hail-ddweud wrth ffrindiau ac oedolion. Maent yn dechrau adnabod ac enwi amrywiaeth o seiniau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddechrau darllen testunau syml yn unol â'u cam datblygu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen â rhuglder a dealltwriaeth gynyddol gyda datblygiad da yn eu medrau ffoneg i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth o'r testun. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau, testunau amrywiol ac oddi ar wefannau perthnasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr mewn ystod dda o brofiadau, ac yn raddol, maent yn dechrau ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn fedrus, er enghraifft wrth ddisgrifio dinosoriaid. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n gynyddol gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio anifeiliaid yn yr Amason. Ar frig yr ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio geirfa gyfoethog ac ymadroddion dychmygus wrth ysgrifennu ymson mordaith y Mimosa.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau mathemateg. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn adnabod rhifau hyd at 100 ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur a dehongli graddfeydd mesur yn dda. Erbyn Blwyddyn 5, mae disgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn fwy ymestynol, er enghraifft drwy ddylunio cerbydau ar gyfer pobl ag anableddau corfforol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn manteisio'n fwriadus ar gyfleoedd i

gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfesurynnau i leoli ardaloedd arwyddocaol o Gaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod o raglenni digidol yn llwyddiannus i gefnogi eu dysgu. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn defnyddio apiau digidol i greu cerddi haiku am gestyll Cymru, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod gynhwysfawr o fedrau digidol ac yn eu defnyddio'n effeithiol i ymestyn a chyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn creu rap i adrodd hanes brad yr adar gleision.

Mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn effeithiol i gynhyrchu gwaith gwreiddiol o safon, er enghraifft wrth efelychu artistiaid enwog. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cerddorol yn rhagorol drwy berfformio yn lleol a chystadlu yn genedlaethol. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o ddawn gerddorol y disgyblion.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n dda ac maent yn ymroi i weithgareddau corfforol yn frwdfrydig. Maent yn mwynhau'r sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau mewn amrywiaeth dda o gyfleoedd cyfoethog, er enghraifft wrth gystadlu mewn twrnamaint tennis bwrdd lleol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae lles ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel o fewn yr ysgol. Maent yn dangos balchder amlwg at eu hysgol ac yn gwerthfawrogi'r profiadau amrywiol sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Maent yn ymddwyn yn rhagorol ac yn dangos cwrteisi, gofal a pharch amlwg at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar o'u cyfoedion, yn sensitif i anghenion eraill ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt broblem.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau ac yn ymroi i'w tasgau yn frwdfrydig, yn enwedig yn ystod gweithgareddau'r goedwig. Mae'r sesiynau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cydweithio a chreadigol y disgyblion. Mae llawer yn dangos dyfalbarhad yn eu tasgau ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd mewn grwpiau, mewn parau neu drwy gynorthwyo ei gilydd, pan fo angen. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar staff. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob tro'n deall nac yn ymateb yn ddigon rhagweithiol i adborth ysgrifenedig athrawon. O ganlyniad, nid ydynt yn deall beth i'w wneud i wella eu gwaith, a sut, er mwyn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a pheryglon datgelu gwybodaeth bersonol yn aeddfed. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth. Trwy weithgareddau 'dechrau da i'r diwrnod', mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau da o ran bwyta ac yfed yn iach a'r effaith y mae'n ei chael ar eu hiechyd. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol ac yn cael mwynhad amlwg wrth gymryd rhan ynddynt.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn mwynhau cynrychioli’r ysgol mewn cystadlaethau chwaraeon amrywiol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch cynyddol wrth wynebu profiadau dysgu a sefyllfaoedd newydd. Maent yn arddangos cymhelliant a chwilfrydedd cynhenid yn eu dysgu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus sy’n barod i ddysgu. Er hyn, mae tueddiad i leiafrif o ddisgyblion fod yn or-ddibynnol ar gymorth staff sydd yn ei dro yn arafu datblygiad eu medrau dysgu annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau o fewn yr ysgol a’r gymuned. Mae’r cyngor ‘dreigiau’ yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg yn effeithiol yn y gymuned drwy ddylunio a rhannu posteri yn y siopau lleol i annog trigolion i sgwrsio yn Gymraeg. Mae’r cyngor ysgol wedi creu polisi gwrthfwlio i’r disgyblion sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at greu ethos gofalgar sy’n bodoli drwy’r ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae gan lawer ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu pobl eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth o’u hawliau sy’n cynnwys ymwybyddiaeth o’r hawl i fod yn hapus. Trwy ymholiadau fel ‘pa mor amlddiwylliannol yw Caerdydd?’, er enghraifft, maent yn datblygu empathi a dealltwriaeth aeddfed o brofiadau pobl o gefndiroedd amrywiol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm cyfoethog ac yn cynnig profiadau dysgu sy’n sbarduno dychymyg disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r ddarpariaeth werthfawr hon yn cydweithio’n gynhyrchiol â holl randdeiliaid yr ysgol i ddylunio cwricwlwm eang a chynhwysfawr sy’n cefnogi egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ac yn berthnasol i gymuned Yr Eglwys Newydd. Mae hyn ennyn a chynnal diddordeb a mwynhad y disgyblion yn eu dysgu ac yn sicrhau dilyniant yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae athrawon yn sicrhau bod cydbwysedd ac ehangder priodol ym mhrofiadau disgyblion ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Mae staff yn ystyried syniadau’r disgyblion yn effeithiol fel rhan o’r broses gynllunio ac yn gweithio’n dda gyda nhw a’u rhieni i ddatblygu cwricwlwm sy'n ymgorffori'r natur gymunedol yr ysgol yn llawn. Mae’r ethos o Gymreictod yn nodwedd amlwg o’r cwricwlwm sy’n plethu’n gelfydd drwy holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ymwybyddiaeth a pherchnogaeth y disgyblion o’u cymuned leol, Cymru a’r byd ehangach yn cael ei datblygu’n llwyddiannus.

Mae’r berthynas waith gadarn rhwng staff a disgyblion yn gryf ac mae’r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn annog a chanmol ymdrechion y disgyblion yn gyson wrth iddynt lwyddo yn eu gweithgareddau. Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr dysgu yn darparu cefnogaeth werthfawr ac effeithiol i ddisgyblion a darperir amgylchedd dysgu deniadol yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd awyr agored i gefnogi’r disgyblion. Trwy’r ysgol, gwneir defnydd effeithiol o’r ardal goedwig i ehangu a chyfoethogi’r profiadau dysgu, er enghraifft wrth i ddisgyblion greu lluniau brodorol o Awstralia o ddeunyddiau naturiol. Mae ymweliadau addysgol lleol i Fae

Caerdydd, yn ogystal ag ymweliadau preswyl er enghraifft, yn cryfhau'r profiadau dysgu ac yn cefnogi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal leol yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn darparu arweiniad clir yn ystod gweithgareddau dysgu. Maent yn cymell disgyblion yn fedrus, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder bwriadus a heriau uchelgeisiol i'r sesiynau. Maent yn sicrhau cydbwysedd cyson rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan staff a chyfleoedd i ennyn a chynnal diddordeb a datblygu'r disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r arferion effeithiol hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Mae tueddiad i leiafrif o athrawon or-arwain y dysgu sy'n llesteirio chwilfrydedd cynhenid y disgyblion. Mae hyn yn ei dro yn cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau mwyfwy annibynnol am eu dysgu.

Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth ehangach, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg. O ganlyniad, erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys. Mae staff yn dangos brwdfrydedd at yr iaith ac yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau llafar disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau llafar a llythrennedd Cymraeg.

Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion am eu dysgu. Mewn dosbarthiadau lle mae hyn yn effeithiol, mae disgyblion yn gwella'u gwaith, ac o ganlyniad, yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud y tro nesaf i wneud eu gwaith yn well. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'r adborth hwn nac yn sicrhau ei fod yn ddigon penodol i helpu disgyblion i wella agweddau pwysig o'u gwaith.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol gan wneud defnydd pwrpasol o asesiadau amrywiol. Trwy hyn, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ymhob agwedd o'u dysgu. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion i rieni yn amserol ac yn cynnwys targedau gwelliant, lle bo'n berthnasol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel, hapus a gofalgar ac mae'r gydberthynas rhwng y disgyblion â'i gilydd, y disgyblion a'r staff yn gryfder. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at feithrin awyrgylch deuluol yr ysgol. Mae'r parch a'r gofal gan staff yn nodwedd gref, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar agweddau disgyblion, eu hymddygiad a'u parodrwydd i ddysgu.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cefnogi anghenion lles, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus i'w cefnogi i ymgysylltu'n gyson â'u dysgu ac elwa ar yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae sesiynau cefnogi sy'n canolbwyntio ar feithrin lles disgyblion, er enghraifft, yn effeithiol ac yn cyfoethogi eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol yn llwyddiannus.

Mae trafodaethau staff ynghyd â threfniadau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at adnabod anghenion pob disgybl. Mae hyn o fudd i staff wrth

iddynt adnabod a gweithredu cefnogaeth yn gynnar tra’n ymateb i anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn drefnus ac effeithiol. Mae staff yn darparu ystod o raglenni cefnogi ac ymyraethau gwerthfawr sydd wedi eu teilwra’n ofalus i ymateb i anghenion disgyblion a’u targedau personol. Gwna’r ysgol ddefnydd da o asiantaethau allanol fel y therapydd llefaredd a’r tîm iaith a chyfathrebu. Mae’r cynorthwywyr dysgu yn gweithio’n wybodus a medrus wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a sylwadau asiantaethau allanol i gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta’n iach ac yn annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy’n cynnwys clybiau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r meysydd chwarae eang yn caniatáu i staff drefnu a darparu ystod o weithgareddau awyr agored sy’n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion at y gweithgareddau. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw’n heini yn llwyddiannus.

Mae staff yn trefnu sesiynau addoli ar y cyd yn dda sy’n cynnig cyfleoedd ystyrlon i gefnogi datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt, er enghraifft wrth ganu amrywiaeth o emynau a chaneuon cyfoes. Mae hawliau plant yn rhan gyson o wasanaethau’r ysgol. Yn ogystal, mae staff yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau gwerthfawr, er enghraifft wrth astudio sawl mosg sydd yng Nghaerdydd.

Un o gryfderau’r ysgol yw sut mae’r staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymreig. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau mynegiannol ac arddel diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg gyfoes ac yn efelychu gwaith awduron ac artistiaid Cymreig yn llwyddiannus. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol, celfyddydol a hunanhyder disgyblion yn dda, ac yn cyfrannu at feithrin parch a balchder disgyblion at eu cynefin yn lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn cefnogi disgyblion i ddarparu trefniant ailgylchu gwisg ysgol lle mae disgyblion yn dod â dillad wedi’u defnyddio i’r ysgol i gael eu dosbarthu eto i ddisgyblion eraill sydd eu hangen. Yn ogystal, mae’r cyngor ysgol wedi trefnu diwrnod i ddathlu amrywiaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymchwilio i, a gwerthfawrogi, materion sy'n gysylltiedig â goddefgarwch, empathi a pharch at eraill.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson y disgyblion yn gadarn. Mae staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant. Gwneir defnydd effeithiol o’r swyddog cefnogi teulu a gwasanaethau allanol i gefnogi hyn. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer diogelwch disgyblion ac wedi sefydlu diwylliant cadarn o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae

trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau craidd. Mae hyn yn seiliedig ar gefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr parchus ac uchelgeisiol sy'n barod i lwyddo. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth a balchder yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned Gymreig a chlòs yr ysgol.

Mae trefniadau i gefnogi, datblygu a dosbarthu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol. O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth brwdfrydig wedi datblygu tîm effeithiol o staff drwy ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn addas. Maent yn gwbl glir am eu rolau ac yn ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol gan hybu diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng holl aelodau staff. O ganlyniad, maent yn awyddus i ddatblygu'r ddarpariaeth i wella profiadau, cynnydd a medrau'r disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd â rôl weithredol a phwrpasol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cynnig arweiniad, cymorth a her ddefnyddiol i'r pennaeth. Mae gan lywodraethwyr fedrau penodol ac eang, ac maent yn eu defnyddio'n bwrpasol i gynorthwyo arweinwyr wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft wrth gydweithio â staff i ddrafftio gwybodaeth am ddulliau olrhain cynnydd medrau disgyblion. Mae aelodau'r corff yn weithredol mewn gweithgareddau hunanwerthuso, ac o ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gweithredu ar gyfer cefnogi disgyblion i fwyta ac yfed yn iach, sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth statudol.

Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a'i chymuned yn arbennig o dda. Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn gryfder nodedig ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn hynod weithgar wrth gynnal digwyddiadau yn yr ysgol. O ganlyniad i gynnal disgo Santes Dwynwen, er enghraifft, gwnaed cyfanswm da o elw i gyfrannu at ddarparu rhaglen ddarllen ddigidol i alluogi rhieni i gefnogi medrau darllen eu plant gartref.

Mae arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd gweithgarwch yr ysgol sy'n arwain at welliannau bwriadus. Er enghraifft, mae craffu ar gynnydd medrau rhifedd disgyblion wedi arwain at ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu gwerthfawr ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro a gwerthuso bob amser yn canolbwyntio'n ddigon bwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion, fel yr angen i gynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr mwyfwy annibynnol.

Dros amser, mae arweinwyr yn creu ethos a diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi a hybu dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy'n ymateb i'w gofynion unigol a blaenoriaethau'r ysgol yn gadarn. Defnyddir profiadau ac arbenigedd unigol staff yn

effeithiol wrth hyrwyddo dysgu proffesiynol a dyrannu cyfrifoldebau cwricwlaidd. O ganlyniad, mae pob aelod o staff yn manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda.

Mae'r ysgol yn rhan o bartneriaeth addysg Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Mae hyn yn golygu bod staff yr ysgol yn gyfrifol am fentora myfyrwyr yn flynyddol. Mae hyn yn atgyfnerthu agwedd gadarnhaol yr holl staff tuag at ddysgu proffesiynol.

Mae gan yr ysgol gynllun gwariant synhwyrol sy'n sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae'r arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau gwariant synhwyrol i gyd-fynd ag anghenion pwysig. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â'u dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithio i sicrhau bod teuluoedd sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn cael cymorth da. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid gwisgoedd ysgol er mwyn lleihau costau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2024